Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

# Dyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig Brys (Rhan-Amser)

Mae’r cwrs hwn wedi’i gynllunio ar gyfer dysgwyr sy’n gyfrifol am ofalu am blant a babanod gan ddarparu’r wybodaeth a’r cymhwysedd ymarferol i ddelio ag ystod o sefyllfaoedd cymorth cyntaf pediatrig. Mae’r cymhwyster hwn yn bodloni gofynion Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar.

Mae’r cwrs hwn yn ymdrin â’r pynciau canlynol:
– Deall rôl a chyfrifoldebau’r swyddog cymorth cyntaf pediatrig
– Gallu asesu sefyllfa o argyfwng yn ddiogel
– Gallu darparu cymorth cyntaf i faban a phlentyn nad yw’n ymateb
– Gallu darparu cymorth cyntaf i faban a phlentyn sy’n tagu
– Gallu darparu cymorth cyntaf i faban a phlentyn â gwaedu allanol
– Gwybod sut i ddarparu cymorth cyntaf i faban neu blentyn sy’n dioddef o sioc
– Gwybod sut i roi cymorth cyntaf i faban neu blentyn â brathiadau, pigiadau a mân anafiadau

## Gofynion Mynediad

Mae'r cymhwyster ar gael i ddysgwyr 16 oed neu hyn.

Argymhellir y dylai dysgwyr feddu ar o leiaf Lefel 1 mewn llythrennedd neu gyfwerth i ymgymryd â'r cymhwyster hwn.

## Rhagolygon Gyrfa

O ennill y cymhwyster cymorth cyntaf pediatrig brys hwn, gallai dysgwyr symud ymlaen i Ddyfarniad Lefel 3 mewn Cymorth Cyntaf Pediatrig.

Rydym hefyd yn cynnig cymwysterau mewn iechyd a diogelwch, diogelwch bwyd, diogelu a chymorth cyntaf ar gyfer iechyd meddwl pe bai dysgwyr yn dymuno arallgyfeirio.

## Modiwlau’r cwrs

Mae’r cymhwyster yn ddilys am dair blynedd o’r dyddiad cyflawni. Argymhellir bod y dysgwr yn mynychu hyfforddiant gloywi blynyddol. Bydd angen i’r dysgwr gwblhau’r cwrs llawn eto i gymhwyso am dair blynedd arall

## Asesiad

Asesir y cymhwyster trwy arddangosiad ymarferol a chwestiynu llafar cysylltiedig. Rhaid i ddysgwr gwblhau pob arddangosiad ymarferol yn llwyddiannus ac ateb y cwestiynau llafar yn gywir i ennill y cymhwyster.

### DULL ASTUDIO

SC

### LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

### HYD Y CWRS

1D